# PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 6 Tachwedd 2013 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Stuart Davies, Peter Duffy, Martyn Holland,
Gwyneth Kensler (Is-Gadeirydd) a/ac Jason McLellan (Cadeirydd) a Mr P. Whitham (Aelod Lleyg).
Roedd y Cynghorwyr M. Ll. Davies a J. Thompson-Hill yn bresennol fel sylwedyddion.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM), Rheolwr Archwilio (BS), Uwch Archwilydd (LL), Rheolwr Caffael Strategol Dros Dro (SA), Rheolwr Eiddo (DL), Cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru (AV a GB) a Gweinyddwr y Pwyllgor (CIW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr)

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Nodwyd y cysylltiadau canlynol o ran eitemau busnes i'w hystyried yn y cyfarfod.

Eitem 5 ar y Rhaglen: Y diweddaraf am y gyllideb – bu i'r Cynghorwyr G.M. Kensler a M.Ll. Davies ddatgan cysylltiad personol. Y rheswm am hyn oedd bod y ddau Gynghorydd yn derbyn Pensiynau Llywodraeth Leol.

Eitem 6 ar y Rhaglen: Protocol ar gyfer Aelodau sy'n Gynrychiolwyr ar Gyrff Allanol - bu i'r Cynghorydd M.Ll. Davies ddatgan cysylltiad personol. Y rheswm am hyn oedd bod y Cynghorydd dan sylw'n aelod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid eu hystyried yn y cyfarfod, ym marn y Cadeirydd, fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar:-

(i) 4 Medi, 2013.

Materion yn codi:-

6. Y diweddaraf am y gyllideb - dywedwyd wrth Aelodau y byddai Maes Parcio Quay Street, Rhyl yn ail-agor ac y byddai gwybodaeth am yr incwm a’r ffigyrau gwariant ar gyfer y maes parcio’n cael eu dosbarthu gan Bennaeth Cyllid ac Asedau.

***PENDERFYNWYD –*** *derbyn a chymeradwyo’r cofnodion fel rhai dilys a chywir.*

(ii) 27 Medi, 2013.

***PENDERFYNWYD –*** *derbyn a chymeradwyo’r cofnodion fel rhai dilys a chywir.*

## 5 Y DIWEDDARAF AM Y GYLLIDEB

Mewn adroddiad a ddosbarthwyd yn flaenorol gan Bennaeth Cyllid ac Asedau, cafwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y broses o bennu cyllideb y Cyngor ar gyfer 2014/15, a gofynnwyd i’r Aelodau ystyried y set nesaf o arbedion i’w cyflwyno i’r Cyngor Sir.

Roedd gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol rôl o oruchwylio’r broses o bennu’r gyllideb, ac mae Atodiad 1 yn cynnwys manylion ynghylch yr arbedion a gynigir.

Roedd fersiwn drafft o Setliad Llywodraeth Leol ar gyfer Cymru 2014/15 wedi ei gyhoeddi ar 16 Hydref , 2013. Y prif ffigyrau oedd:-

- Gostyngiad ariannol o 3.5% ar gyfartaledd drwy Gymru -
- Gan Sir Ddinbych oedd y setliad gwaethaf yng Nghymru sef - 4.6%
- Roedd mecanwaith lleddfu wedi ei ddefnyddio i leihau’r effaith yn 2014/15 ond byddai’n cael effaith yn 2015/16

Cyfeiriwyd at ansicrwydd ynglŷn â rhai manylion yn y Setliad, yn benodol yn ymwneud â chyllid y Cynllun Lleihau Treth y Cyngor a’r ymdriniaeth o grant ychwanegol Amddifadedd Disgyblion mewn perthynas â’r angen i ddiogelu cyllidebau ysgolion. Y gobaith oedd y byddai manylion yn cael eu hegluro yn dilyn cyfarfod o Gymdeithas Trysoryddion Cymru ar 25 Hydref. Yn ogystal â hyn disgwylid am adolygiad actiwaraidd o Gynllun Pensiwn Clwyd a rhagwelid y byddai adolygiad yn cynyddu costau cyflogwyr. Roedd y Setliad drafft a phwysau eraill wedi golygu bod targed o tua £8.5 wedi ei osod ar gyfer arbedion, er y gallai hwn newid wrth i fanylion ddod yn gliriach.

Yn sgil y broses gyllidebol roedd y Cyngor wedi cymeradwyo arbedion o £1.7m ar gyfer 2014/15 ym Medi, ac ar 21 Hydref, cyflwynodd Gweithdy Aelodau gynigion ychwanegol yn dod i £4.5m. Roedd Aelodau Arweiniol wedi darparu manylion am yr arbedion, yr effaith ac asesiad risg a byddai’r rhain yn cael eu cyflwyno i’r Cyngor

yn Rhagfyr i'w cymeradwyo. Gallai arbedion pellach i gydbwyso cyllideb 2014/15 gael eu hystyried ar wahân yng Ngweithdy nesaf yr Aelodau yn Rhagfyr, a'u cyflwyno i'r Cyngor eu cymeradwyo yn Ionawr neu Chwefror 2014.

Byddai'n bwysig sicrhau bod Aelodau'n cael cyfle i ofyn cwestiynau neu leisio pryderon ynglŷn ag unrhyw un o'r arbedion a oedd yn cael eu cynnig ar gyfer eu cymeradwyo yn Atodiad 1. Roedd yr Aelod Arweiniol a Phennaeth Cyllid ac Asedau wedi cytuno i drafod unrhyw un o'r cynigion yn fanwl cyn eu cyflwyno i'r Cyngor. Roedd y gyllideb yn sail i ddarparu holl flaenoriaethau a gwasanaethau'r Cyngor, ac roedd yr Atodiad yn nodi arbedion o £4.5m ar gyfer 2014/15. Cytunwyd yn flaenorol ar arbedion o £1.7m a'r targed o ran arbedion ar gyfer 2014/15 fyddai £8.5m.

Cyflwynwyd copi o'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn y cyfarfod gan Bennaeth Cyllid ac Asedau a thynnwyd sylw at y materion a'r pwyntiau amlwg canlynol. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, eglurodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau, er gwaethaf y datganiad yn Adran Gyllid Gwefan Llywodraeth Cymru, fod gan ALl lai o ddisgresiwn ynglŷn â sut yr oedden nhw'n gwario eu harian, gan gyfeirio'n benodol at y gwahaniaethau yn gysylltiedig â chlustnodi cyllid, diogelu ysgolion a'r gyfarwyddeb gan LC i gynyddu cyllid i ysgolion o 0.9%. Crynhowyd meysydd eraill sy'n dylanwadu ar y gyllideb gan Bennaeth Cyllid ac Asedau. Roedd y rhain yn cynnwys:-

- effaith Cynllun Lleihau Treth y Cyngor.
- nifer y bobl yn y Sir a oedd yn derbyn budd-daliadau, y math o hawlwyr a lefel y cymorth a ddarparwyd.
- ansicrwydd ynglŷn â Chynllun Treth y Cyngor.
- peidio â chlustnodi cyllid ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn y flwyddyn ariannol sy'n dod.
- cynnig Llywodraeth Leol i Lywodraeth Cymru i adolygu grantiau a dderbyniwyd er mwyn cael mwy o hyblygrwydd.
- effaith Grant Amddifadedd Disgyblion.
- cynnydd arfaethedig o 2% yng nghyllideb yr Awdurdod Tân ac Achub.
- Canlyniadau cynnydd yn nisgwyliad oes hawlwyr Cronfa Bensiwn Clwyd.
- Manylion Treth Ystafelloedd Gwely, Newidiadau Lles heb gael cymaint o effaith ag a ragwelid.
- Cyfrif Refeniw Tai, dyddiad gweithredu cymhorthdal tai wedi newid o Ebrill, 2014 i Ebrill, 2015.
- manylion am braesept Heddlu Gogledd Cymru ddim ar gael eto.
- wedi cael cadarnhad na fyddai unrhyw effaith ar y gyllideb yn sgil y penderfyniad i ohirio cau St Brigid's.

Darparodd Pennaeth Cyllid ac Asesu fanylion yr amserlenni arfaethedig ynglŷn â'r broses gyllidebol a thynnwyd sylw at yr anawsterau i sicrhau cydbwysedd rhwng darparu gwybodaeth ac amseriad cyfarfodydd. Eglurodd y byddai'r adroddiad a oedd yn cael ei ystyried yn y cyfarfod hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 3 Rhagfyr, 2013 i'w gymeradwyo, ac y byddai'r Gweithdy a gynhelir ar 9 Rhagfyr, 2013 yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r gwahaniaeth o £2m. Teimlai'r Cadeirydd y dylid dosbarthu'r papurau i'w hystyried cyn dyddiad y Gweithdy i sicrhau nad oedd y drafodaeth yn cael ei llesteirio. Mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd M.Ll. Davies,

cytunwyd y byddai'r papurau o'r Gweithdy diweddar yn cael eu dosbarthu i'r holl Aelodau nad oedd yn bresennol. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o sicrhau presenoldeb Aelodau yn y Gweithdy nesaf, ac adborth yn dilyn hynny.

Cytunodd y Pennaeth Cyllid ac Asesu i ddarparu ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd P.C. Duffy ynglŷn â p'un ai a oedd y Cyngor yn gwario llai ar drwsio eu tai o ganlyniad i'r buddsoddiad diweddar.

Ar ôl trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn:-*

*(a) derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf a'r camau nesaf arfaethedig, ac yn*
*(b) cymeradwyo'r cam nesaf o arbedion a gynigir gan y Cyngor Sir i'w cymeradwyo'n ffurfiol yn Rhagfyr, 2013.*

***(PM i Weithredu)***

## 6 PROTOCOL AR GYFER AELODAU SY'N GYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL

Dosbarthwyd copi o adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Eglurodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y gallai Aelodau fod ar nifer eang o gyrff allanol a oedd yn cynnwys sefydliadau cymunedol, ymddiriedolaethau elusennol, clybiau chwaraeon a hamdden, cwmnïau a chymdeithasau tai. Gallai Aelod gael ei benodi i eistedd ar y cyrff hyn gan y Cyngor neu mewn achosion eraill, gallent gael eu penodi'n annibynnol heb unrhyw ymwneud gan y Cyngor.

Roedd Aelodau a benodid i eistedd ar gyrff allanol gan y Cyngor yn cael eu trin yn wahanol o dan y Cod Ymddygiad i'r rhai a benodid yn annibynnol heb unrhyw ymwneud gan y Cyngor i'r graddau yr oedd datgan cysylltiad dan sylw, gan gyfeirio'n benodol at y diffiniad o gysylltiadau sy'n rhagfarnu ac eithriadau. Gallai unrhyw Aelod a benodid i gorff allanol gan y Cyngor elwa ar indemniti gan y Cyngor mewn rhai amgylchiadau, ac ni fyddai hyn yn berthnasol i Aelod a benodid yn annibynnol heb ymwneud gan y Cyngor. Gallai presenoldeb Aelodau mewn cyfarfod o gorff allanol, pe bai wedi ei benodi gan y Cyngor, gael ei gydnabod fel presenoldeb gan Aelod i bwrpas Deddf Llywodraeth Leol 1972, wrth benderfynu a fyddai Aelod yn cael ei ddiarddel oherwydd diffyg presenoldeb. Teimlai Mr P. Whitham na fyddai Aelod wedi ei benodi gan yr ALl, neu'n annibynnol, i gorff allan yn cael ei ystyried gan y Cyngor yn lle hyn.

Byddai rôl Aelod mewn perthynas â chorff allanol yn amrywio yn dibynnu ar y corff. Byddai rhai Aelodau'n dod yn gyfarwyddwyr cwmnïau, yn ymddiriedolwyr i ymddiriedolaethau elusennol, yn aelodau o bwyllgorau rheoli gyda'r gallu i wneud penderfyniadau neu byddent yn gallu bod yn arsylwyr neu gynrychiolwyr heb unrhyw allu i wneud penderfyniadau. Roedd gwahanol rwymedigaethau cyfreithiol yn perthyn i'r gwahanol rolau a gallent fod â gwahanol lefelau o indemniti.

Roedd gan Aelodau rôl bwysig o ran cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol a gallai'r Cyngor elwa fel a ganlyn o ymwneud Aelodau:-

- Darparu gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd, na fyddai ar gael fel arall.
- Sicrhau atebolrwydd lleol neu gyfreithlondeb democrataidd wrth benodi cynrychiolydd etholedig.
- Sicrhau y gellir cynnal perthynas dda â'r corff.
- Darparu prosiect partneriaeth sy'n galw am fewnbwn gan gyrff neu grwpiau cymunedol eraill.
- Diogelu buddsoddiad neu ased y Cyngor, h.y. os yw'r Cyngor yn darparu grant neu arian i ddarparu gwasanaeth.
- Denu cyllid allanol na fyddai ar gael i'r Cyngor ar ei ben ei hun.

Er mwyn sicrhau bod cynrychiolaeth o'r Cyngor ar gyrff allanol yn dal yn berthnasol ac yn sicrhau'r manteision a amlinellwyd, dylai'r rhai a benodir ddarparu gwybodaeth ac adroddiadau'n achlysurol i'r Cyngor ar weithgareddau'r sefydliad. Byddai hefyd yn bwysig sicrhau bod y Cyngor yn ymwybodol o'r defnydd a gâi ei wneud o'r cyllid yr oeddent wedi ei ddarparu.

Roedd nifer o ddulliau o adrodd yn ôl wedi eu hamlinellu. Roedd rhai Aelodau'n adrodd yn ôl trwy nodiadau briffio rheolaidd a chylchlythyrau Aelodau, roedd eraill yn adrodd yn ôl yn fwy ffurfiol naill ai trwy adroddiadau i'r Cabinet, y Pwyllgor Archwilio, y Cyngor neu'r Cyngor Anffurfiol. Roedd yr adroddiad yn awgrymu na fyddai'n addas mabwysiadu un dull i bawb, gan fod rhai cyrff allanol yn cael effaith fwy sylweddol ar y Cyngor nag eraill. Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd M.Ll. Davies, eglurodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd mewn achosion lle'r oedd mwy nag un Aelod wedi ei benodi i gorff allanol, y gellid dod i gytundeb bod un Aelod yn adrodd yn ôl i'r Cyngor, ac y gellid anfon copïau o gofnodion cyfarfodydd y corff allanol trwy e-bost.

Roedd rhestr o Aelodau a benodwyd ar gyrff allanol wedi ei chynnwys yn Atodiad 1. Roedd rhai cyrff allanol yn cael mwy o effaith ar gymunedau a blaenoriaethau'r Cyngor nag eraill, gyda rhai'n derbyn cymorth ariannol sylweddol gan y Cyngor ac eraill yn cael llai neu ddim o gwbl. Wrth ystyried gofynion adrodd eglurwyd y gallai Aelodau ystyried y fforwm a'r amlder mwyaf addas ar gyfer adroddiadau.

Roedd arferion ALl eraill yn amrywio. Nid oedd gan nifer o ALl unrhyw fecanwaith ffurfiol i Aelodau adrodd ar eu gweithgareddau, tra bod eraill yn gofyn i Aelodau gwblhau adroddiadau templed proforma a gâi eu dosbarthu er gwybodaeth i gyd Gynghorwyr neu eu gosod mewn un lleoliad yr oedd gan Gynghorwyr fynediad iddo. Mewn rhai achosion roedd ALl yn categoreiddio cyrff allanol y penodwyd Aelodau iddynt ac roedd ganddynt wahanol ofynion adrodd yn dibynnu ar y categori yr oedd y corff allanol wedi ei osod ynddo.

Roedd enghreifftiau o gategorïau a ddefnyddiwyd mewn mannau eraill yn cynnwys:-

- Cyrff sy’n gosod praesept y mae’r Cyngor yn ei gasglu
- Cyrff y mae’r Cyngor yn talu tanysgrifiad i fod yn aelod ohono
- Cyrff sy’n derbyn grant neu gymorth ariannol arall gan y Cyngor
- Yr holl gyrff allanol eraill

Gallai cynrychiolwyr ar gyrff allanol orfod cwblhau adroddiadau proforma blynyddol a allai fod yn destun adroddiad corfforaethol i’r Cabinet pan mae'n ystyried penodiadau i gyrff allanol. Os oedd gan y Cyngor fwy nag un cynrychiolydd ar gorff, gellid paratoi un adroddiad y cytunwyd arno. Gallai ALl ofyn am adroddiadau ychwanegol, manylach ar gyfer rhai cyrff neu gategorïau o gyrff a nodi fforwm ar gyfer yr adroddiadau hynny i gyfarfodydd o’r Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M.L. Holland, cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod yn rhaid i ALl gael trefniadau i Aelodau gyflwyno Adroddiadau Blynyddol ar eu gweithgareddau, ond nid oedd yn fandadol i’r adroddiadau hynny gael eu cwblhau. Roedd adroddiad proforma wedi ei ddarparu ar gyfer yr adroddiadau hynny a gellid dosbarthu adroddiad blynyddol ar broforma cyrff allanol gydag Adroddiadau Blynyddol Cynghorwyr er mwyn gallu eu cwblhau’r un pryd. Cadarnhaodd Mr P. Whitham y byddai’n anfon awgrymiadau ymlaen i ystyried eu cynnwys yn y proforma.

Eglurodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd nad oedd cynrychiolwyr ar gyrff allanol yn cael eu penodi o anghenraid i weithredu er budd y Cyngor yn unig. Byddai gan Ymddiriedolwyr a Chyfarwyddwyr ddyletswyddau cyfreithiol i’r cyrff hynny y penodwyd hwy’n aelodau ohonynt. Gallai Aelodau a benodid i’r cyrff hynny gael eu hymrwymo gan rwymedigaethau cyfrinachedd i’r corff allanol perthynol, a allai arwain at beidio â chynnwys rhai agweddau o fusnes y corff mewn adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fanylion y Mesur Llywodraeth Leol Drafft, a oedd yn nodi bod gan ALl ddyletswydd i gynnwys proses graffu ar gyrff dynodedig yn eu trefniadau gweithredol, ac amlinellodd y broses ymgynghori ar gyfer nodi cyrff dynodedig.

Cyfeiriodd Mr P. Whitham at gategoreiddio adroddiadau a’r persbectif o safbwynt risg llywodraethu a allai gynnwys materion yn ymwneud ag agweddau ariannol ac enw da’r Awdurdod. Cyfeiriodd hefyd at berthnasedd pecyn cymorth y bartneriaeth a llywodraethu partneriaeth yn gyffredinol.

Gofynnwyd i’r Pwyllgor ystyried y materion a amlinellwyd yn yr adroddiad a nodi eu dewisiadau er mwyn ymgynghori’n llawnach â’r holl Aelodau etholedig. Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd cytunwyd gofyn i Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratiadd gategoreiddio’r Cyrff Allanol perthynas a chyflwyno adroddiad pellach yng nghyfarfod fis Ionawr, 2014 o’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn:-*

*(a) derbyn a nodi cynnwys adroddiadau Aelodau ar eu gweithgareddau gyda chyrff allanol, a*
*(b) Gofyn i Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd baratoi adroddiad pellach, yn categoreiddio'r Cyrff Allanol perthynol, i'w gyflwyno yng nghyfarfod fis Ionawr, 2014 o'r Pwyllgor.*
***(GW i weithredu)***

## 7 CYNLLUN GWEITHREDU FFRAMWAITH LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Roedd adroddiad gan Bennaeth Archwilio Mewnol, a oedd yn darparu cynllun gweithredu wedi ei ddiweddaru yn sgil adolygiad o fframwaith llywodraethu'r Cyngor, a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2012/13, wedi ei ddosbarthu'n flaenorol.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Archwilio a chadarnhaodd fod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn monitro Cynllun Gweithredu'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn rheolaidd fel rhan o drefniadau llywodraethu cyffredinol y Cyngor i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu'r gwelliannau angenrheidiol yn effeithiol. Roedd y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys asesiad blynyddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor a Datganiad Llywodraethu Blynyddol a oedd yn tanlinellu unrhyw wendidau llywodraethu o bwys. Roedd hefyd yn tynnu sylw at feysydd pellach, er nad oedd ganddynt wendidau sylweddol, oedd yn dal angen eu gwella.

Roedd y Grŵp Llywodraethu'n rheoli proses y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ac yn datblygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn barhaus yn ystod y flwyddyn ariannol. Roedd y Grŵp yn cynnwys:-

- Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
- Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
- Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
- Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad
- Pennaeth Cyllid ac Asedau
- Pennaeth Archwilio Mewnol

Roedd y Grŵp Llywodraethu wedi datblygu'r Cynllun Gweithredu yn Atodiad 1, ac wedi ei ddiweddaru ers yr adroddiad blaenorol i nodi'r cynnydd hyd yma.

Mewn ymateb i'r siom a fynegwyd gan Mr P. Whitham ynglŷn â nifer y cyfeiriadau at amserlenni yn Atodiad 1 a nodwyd fel rhai amherthnasol, pwysleisiodd y Rheolwr Archwilio mor bwysig oedd canolbwyntio ar statws Coch/Ambr/Gwyrdd oherwydd mewn rhai achosion efallai na fyddai angen gweithredu pellach.

Ar ôl trafodaeth fer ar yr adroddiad:-

***PENDERFYNWYD*** *- bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi Cynllun Gweithredu'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol drafft.*
***(IB a BS i weithredu)***

## 8 ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

Roedd copi o adroddiad gan Bennaeth Archwilio Mewnol wedi ei ddosbarthu'n flaenorol.

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio'r adroddiad ar gynnydd diweddaraf y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran darparu gwasanaeth, rhoi sicrwydd, cwblhau adolygiadau, perfformiad ac effeithiolrwydd o ran hybu gwelliannau.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â

- darparu'r Cynllun Sicrwydd ar gyfer 2013/14
- adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar a gyflwynwyd
- ymateb rheolwyr i'r materion a godwyd
- perfformiad Archwilio Mewnol

Eglurodd y Rheolwr Archwilio fod Atodiad 1 yn cynnwys dadansoddiad o waith a wnaed gan Archwilio Mewnol yn ystod 2013/14, o'i gymharu â'r Strategaeth Archwilio Mewnol. Roedd yn cynnwys sgorau sicrwydd a nifer y materion a godwyd ar gyfer yr adolygiadau a gwblhawyd, y diffiniadau a ddefnyddiwyd i roi sicrwydd ar gyfer ein harchwiliad a'r sgorau a ddefnyddiwyd i asesu'r lefelau risg ar gyfer y materion a godwyd.

Roedd yr adroddiadau canlynol a gyflwynwyd ers Medi 2013 wedi eu dosbarthu:-

- Cytundebau Setliad
- Dirprwy Cyllid (Llys Gwarchod))
- Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun

Roedd Crynodebau Gweithredol a Chynlluniau Gweithredu wedi eu hatodi i'r adroddiad er gwybodaeth bellach.

Roedd ymateb rheolwyr i faterion a godwyd gan Archwilio Mewnol wedi eu crynhoi ac roedd y rhan fwyaf o adroddiadau Archwilio Mewnol yn nodi risgiau a gwendidau o ran rheoli. Roedd y rhain wedi eu sgorio fel risgiau critigol, mawr neu gymedrol ac roedd rheolwyr wedi cytuno ar gamau i fynd i'r afael â'r risgiau, yn cynnwys cyfrifoldebau ac amserlenni. Adroddwyd ynghylch pob achos lle'r oedd rheolwyr wedi methu ag ymateb i waith dilynol, neu os oeddent yn mynd dros y dyddiad gweithredu y cytunwyd arno o fwy na thri mis. Byddai'r Pwyllgor yn penderfynu a oedd angen gweithredu pellach.

Roedd gwybodaeth ynglŷn ag adroddiadau y rhoddwyd sylw dilynol iddynt wedi ei chynnwys yn yr adroddiad. Cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio fod dadansoddiad pellach o'r holl faterion y rhoddwyd sylw dilynol iddynt wedi ei gynnwys yn yr adroddiad, yn unol â'r cais mewn cyfarfod blaenorol. Ni ddaeth unrhyw ymateb i law i'r gwaith dilynol ar dri Chynllun Gweithredu y gofynnwyd amdano ar 1 Hydref 2013. Anfonwyd neges atgoffa ar 23 Hydref, ond ni chafwyd unrhyw ymatebion mewn pryd ar gyfer yr adroddiad cynnydd. Fodd bynnag, dywedodd y Rheolwr Archwilio

fod cadarnhad o gynnydd hyd yma wedi ei dderbyn ym mhob achos yn dilyn terfyn amser yr adroddiad. Roedd manylion am Berfformiad Archwilio Mewnol wedi ei gynnwys yn yr adroddiad gyda manylion ychwanegol am ganran y gwaith sicrwydd hanfodol, fel y gofynnwyd yn flaenorol.

Rhoddodd y Rheolwr Archwilio grynodeb o bob adroddiad a ddosbarthwyd:-

(i) Cytundeb Setliad:-

Wrth ddadansoddi taliadau cyflog ar gyfer 2012/13, fel rhan o brofi'r sicrwydd ariannol, dywedwyd wrth Aelodau fod chwe thaliad wedi eu nodi fel cytundebau setliad. Roedd y gwaith a wnaed wedi cynnwys dadansoddi ffeiliau achos ac ystyried y broses gyffredinol i sicrhau bod:-

- gan y Cyngor bolisi / cod ymarfer a gweithdrefnau ffurfiol i ddelio â 'chytundebau setliad';
- bod cytundebau o'r fath yn cael eu hystyried a'u cymeradwyo'n ffurfiol, yn seiliedig ar achos busnes cadarn;
- gofyn am gyngor perthnasol ym mhob achos; a
- bod pob setliad a wnaed yn ystod 2012/13 yn rhesymol a dilys.

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (CD:ECA) at God ACAS a phwysleisiodd fod 'cytundebau setliad' yn ddull cydnabyddedig o ddelio â materion cyflogaeth, yn y sector preifat a chyhoeddus, ac nad oeddent yn cael eu hystyried fel rhywbeth i ddisodli arfer rheoli da. Eglurwyd bod y cytundebau wedi eu defnyddio'n briodol a'u defnyddio ar y cyfan fel y dewis olaf. Hefyd dywedwyd wrth Aelodau fod yr Adolygiad Archwilio Mewnol wedi bod o fudd mawr ac wedi nodi'r angen i ffurfioli'r trefniadau ar gyfer dechrau a chymeradwyo cytundebau setliad. Byddai ffigyrau a ddyfynnwyd yn y wasg wedi cynnwys taliadau cytundebol y byddai gan weithwyr hawl iddynt waeth beth fyddai'r cytundeb setliad, ac eglurwyd y byddai'n gamarweiniol cyfeirio at "gytundeb setliad" fel "gorchmynion cau ceg"".

Roedd y Farn Archwilio wedi nodi'r angen i'r Cyngor ffurfioli ei drefniadau ar gyfer delio â 'chytundebau setliad.' Ar hyn o bryd nid oedd polisi ffurfiol ar gyfer delio ag achosion nac unrhyw weithdrefnau ffurfiol i'w dilyn i sicrhau cysondeb, tegwch a natur agored a darparu achos busnes cymeradwy ar gyfer pob cytundeb. Codwyd tri phrif fater yn y Cynllun Gweithredu yr oedd angen eu trafod a chytuno arnynt cyn i'r Cyngor negodi ymhellach unrhyw 'gytundebau setliad'. Roedd copi o'r Cynllun Gweithredu wedi ei gynnwys a chrynodeb o'r materion, a'r farn a luniwyd cyn cytuno ar setliad, gan y CD:ECA, a groesawodd yr argymhellion yn yr adroddiad. Cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio fod gwaith i baratoi'r adroddiad wedi dechrau cyn cyhoeddi erthygl ar gytundebau setliad yn y wasg.

Cadarnhawyd nad oedd unrhyw reswm penodol am y cynnydd mewn setliadau yn ystod 2012/13, ar wahân i gymhlethdodau yn y berthynas rhwng y cyflogwr a'r gweithwyr. Eglurodd CD:ECA nad oedd unrhyw dueddiadau'n ymwneud ag Adrannau penodol, a bod nifer y setliadau'n ymwneud â staff mewn ysgolion yn

cyd-fynd â chanran y staff a gyflogid yn y Gwasanaeth Addysg. Cyfeiriodd hefyd at ddimensiwn ychwanegol rôl y Cyrff Llywodraethu Ysgolion o safbwynt rheoli ysgolion. Dywedwyd wrth Aelodau fod Swyddog Cefnogi wedi ei benodi i roi cymorth i Gyrff Llywodraethu Ysgolion, ynghyd â darparu hyfforddiant ychwanegol, a bod swyddogion Cyllid ac Adnoddau Dynol wedi eu penodi i glystyrau ysgolion i ddarparu cyngor a helpu gyda'r broses reoli. Gofynnodd y Cadeirydd am wybodaeth ynglŷn â'r gwaith a wneir ar hyn o bryd o safbwynt hyfforddiant ar faterion cyflogaeth.

Pwysleisiodd y CD:ECA bwysigrwydd rheolaeth dda o ran arfer Adnoddau Dynol, ac awgrymodd fod adolygiad yn cael ei gynnal o ddarpariaeth hyfforddiant ar gyfer Cyrff Llywodraethu. Cyfeiriodd y Cynghorydd M.L.Holland, er ei fod yn derbyn bod anawsterau, at y posibilrwydd o ddefnyddio arfarniadau perfformiad yn y Gwasanaeth Addysg.

Cyfeiriodd Mr P. Whitham at y risg i enw da'r Cyngor ac awgrymodd y dylid ystyried cyhoeddi gwelliannau, yn y parth cyhoeddus, yn yr adroddiad archwilio. Eglurodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod yr adroddiad archwilio'n cynnig mabwysiadu polisi a gweithdrefn ffurfiol, i'w defnyddio ar draws y Cyngor, a allai gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor ar ôl ei ffurfio.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cytunodd Aelodau fod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad pellach, yn cynnwys copi o'r polisi a'r gweithdrefnau drafft, yn Ionawr 2014. Hefyd gofynnodd y Cadeirydd fod adroddiad ar faterion cyflogaeth, gweithredu'r strategaeth Adnoddau Dynol mewn clystyrau ysgolion a darparu hyfforddiant i Gyrff Llywodraethu Ysgolion yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn Ionawr, 2014.

(ii) Dirprwy Gyllid (Llys Gwarchod), ac
(iii) Ysgol Brynhyfryd, Ruthun:-

Cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio fod y ddau adroddiad wedi bod yn gadarnhaol iawn a bod y Pwyllgor wedi derbyn a nodi cynnwys y ddau.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor wedi gofyn yn flaenorol am gyfle i drafod unrhyw adroddiadau archwilio gan roi sgôr sicrwydd oren neu goch, sicrwydd isel neu ddim sicrwydd, a gyflwynwyd ar ôl y dyddiad cau ar gyfer adroddiadau'r Pwyllgor. Dosbarthwyd yr adroddiad ar Gaffael Gwasanaethau Adeiladu, a gyflwynwyd ar 29 Hydref, 2013, yn y cyfarfod.

(iv) Caffael Gwasanaethau Adeiladu:-

Cyflwynodd Pennaeth Cyllid ac Asedau'r adroddiad ac eglurodd fod adolygiad o Gaffael Gwasanaethau Adeiladu wedi ei gynnal ar gais y Pennaeth Cyllid ac Asedau er mwyn asesu'r prosesau presennol ar gyfer gwariant ar waith adeiladu a nodi cyfleoedd i sicrhau effeithlonrwydd. Yn sgil newidiadau sylweddol, a oedd yn cynnwys ymwneud cynyddol gan gyrff allanol fel Llywodraeth Cymru, roedd angen diweddaru'r Strategaeth Gaffael bresennol i integreiddio â datblygiad y Strategaeth Datblygu Economaidd. Amlinellodd yr amserlenni ar gyfer y gwaith sy'n cael ei wneud a chadarnhaodd fod cwmpas yr adolygiad wedi cynnwys y strategaeth

gaffael, rolau a chyfrifoldebau, polisïau a gweithdrefnau, rhestrau cymeradwy a thendro a dewis contractwyr. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cysylltu â'r Cyfarwyddiaethau perthynol i sicrhau cysondeb ar draws y Cyngor wrth gydlynu gwahanol gontractau.

Mewn ymateb i bryderon a leisiwyd gan y Cynghorydd P.C. Duffy, eglurodd y Rheolwr Eiddo nad oedd mecanwaith yn ei le i atal ysgolion rhan cael contractwyr o'u dewis i wneud gwaith ar eu safleoedd. Cadarnhaodd Pennaeth Cyllid ac Asedau fod ysgolion yn gyfrifol am reoli eu cyllidebau eu hunain ac amlinellodd yr anawsterau yn eu hwynebu o ran dirprwyo ac ysgolion. Roedd Rheolwr Caffael Strategol Dros Dro a'r Cydlynydd Cynllunio a Rheoli Adeiladu wedi mynychu cyfarfod rheolwyr cyllid ysgolion i amlinellu atebolrwydd a gweithdrefnau caffael o safbwynt ysgolion yn ymgymryd â gwasanaethau contractwyr. Paratowyd crynodeb o fanylion rolau a chylch gorchwyl rheolwyr cyllid a busnes ysgolion, mewn perthynas â chlystyrau ysgolion, ar gyfer Mr P. Whitham.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cadarnhaodd yr Uwch Archwilydd y byddai adroddiad dilynol ar Gaffael Gwasanaethau Adeiladu yn cael ei baratoi yn Chwefror, 2014, a gallai adroddiad cynnydd gael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor ym Mawrth, 2014.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn:-*

*(a) nodi cynnydd a pherfformiad Archwilio hyd yma yn 2013/14.*
*(b) derbyn ac yn nodi'r adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar a gyflwynwyd a'r gwaith dilynol a wnaed.*
*(c) gofyn am adroddiad cynnydd ar Gytundebau Setliad, yn cynnwys copi o'r polisi a'r gweithdrefnau drafft, i'w cyflwyno i'r Pwyllgor yn Ionawr, 2014, ynghyd â chynnwys gwybodaeth am faterion cyflogaeth, gweithredu'r strategaeth Adnoddau Dynol mewn clystyrau ysgolion a manylion am ddarparu hyfforddiant i Ysgolion a'u Cyrff Llywodraethu, a*
*(d) chytuno bod adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor fis Mawrth, 2014 o safbwynt Caffael Gwasanaethau Adeiladu.*

***(PM, IB, BS a LL i weithredu)***

## 9 ADBORTH CYFARFOD CYDRADDOLDEB CORFFORAETHOL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad llafar gan y Cynghorydd M.L. Holland am y cyfarfod Cydraddoldeb Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Hydref, 2013.

Pwysleisiodd y Cynghorydd M.L. Holland y pwyntiau amlwg canlynol:-

- Roedd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb wedi parhau i wella.
- Roedd hysbysiadau wedi eu dosbarthu i Gyfarwyddiaethau'n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau defnyddio templedi cywir.

- Byddai Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn sicrhau bod Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn cael eu cynnwys ar gyfer adroddiadau a gyflwynid i'r Cabinet ac i'r Cyngor.
- Byddai Hyfforddiant Cydraddoldeb yn flaenoriaeth i bob aelod o staff, a byddai angen iddynt ddarllen y llyfryn "Parch".
- Mynegwyd pryder mai dim ond 15 o Aelodau a oedd wedi mynychu sesiynau hyfforddi Cydraddoldeb.
- Awgrymodd y Cynghorydd Holland, mewn achosion lle nad oedd Asesiad Effaith Cydraddoldeb i gyd-fynd ag adroddiad, y dylid rhoi rhesymau pam.

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd amlinelliad o rwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor o safbwynt Asesiadau Effaith Cydraddoldeb.

***PENDERFYNWYD*** *- bod y Pwyllgor yn derbyn ac yn nodi'r adroddiad*

## 10 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd Rhaglen Waith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i'w hystyried.

Cadarnhaodd y Pwyllgor Raglen Waith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn amodol ar gynnwys yr adroddiadau canlynol:-

18 Rhagfyr, 2013:-

- Adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar Indemniti ar gyfer Aelodau Etholedig.

29 Ionawr, 2013:-

- Adroddiad diweddaru gan Bennaeth Cyllid ac Asedau ar y Cytundeb Setliad.
- Adroddiad diweddaru gan Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y Protocol ar gyfer Aelodau sy'n Gynrychiolwyr ar Gyrff Allanol.

26 Mawrth, 2014:-

- Adroddiad diweddaru gan Bennaeth Archwilio Mewnol ar Gaffael Gwasanaethau Adeiladu.

***PENDERFYNWYD*** *- yn amodol ar yr uchod, fod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol.*

Daeth y cyfarfod i ben am 13.25 p.m.